ClwydAlyn

Gyda'n gilydd byddwn yn rhoi diwedd ar dlodi

Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn

2026

ClwydAlyn.co.uk

ClwydAlyn Housing Limited

72 Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy,
Llanelwy,Sir Ddinbych,
LL17 0JD

ClwydAlyn Housing Limited

72 Ffordd William Morgan,
St Asaph Business Park, St
Asaph,Denbighshire, LL17
0JD

Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn 2026

Gall caethwasiaeth fodern effeithio ar bawb. Rydym yn deall ei bod yn drosedd gudd a bod pobl yn cael eu caethiwo mewn caethwasiaeth fodern oherwydd eu bod yn agored i niwed, yn cael eu twyllo ac mae pobl eraill yn cam-fanteisio arnynt, yn aml o ganlyniad i dlodi ac allgáu.

Gwneir y datganiad hwn yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'n rhoi'r newyddion diweddaraf am ein gwaith gyda'n cadwyn gyflenwi, staff a phreswylwyr i godi mwy o ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern. Mae'n rhoi'r manylion diweddaraf am gynnydd ein cynllun gweithredu yn ogystal â gosod blaenoriaethau ar gyfer 2026/2027.

Cymdeithas dai yw ClwydAlyn sy'n gweithio ledled Gogledd Cymru i ddarparu pob math o wasanaethau yn ymwneud â rheoli tai yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Powys, Gwynedd, ac Ynys Môn. Mae ein cartrefi a'n gwasanaethau yn cynnwys tai cymdeithasol i deuluoedd, llety i bobl sengl, llety byw â chymorth a gwasanaethau gofal arbenigol, perchnogaeth tai cost isel, gwasanaethau rheoli prydlesau, tai rhent canolraddol a thai rhent y farchnad.

Mae ClwydAlyn yn ymroddedig i atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i gynnal egwyddorion tegwch, cydraddoldeb, a hawliau dynol, ac rydym wedi ymroi i gymryd camau rhagweithiol i nodi ac ymdrin â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl a lleihau'r risgiau.

Ein Cydweithwyr

Rydym yn trin ein cydweithwyr yn deg ac yn sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn cynnwys gwirio hunaniaeth a chadarnhau'r hawl i weithio yn y DU cyn dechrau cyflogaeth.

Rydym yn monitro cyfraddau tâl ac yn cynnig amddiffyniad rhag unrhyw ddidyniadau tâl anghyfreithlon. Rydym yn talu ein gweithwyr yn uniongyrchol ac nid ydym yn oedi nac yn atal taliadau heb roi rhybudd ymlaen llaw. Rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, rydym yn sicrhau bod cydweithwyr yn gallu cymryd egwylion rheolaidd ac nad ydynt yn gweithio oriau gormodol.

Rydym yn cynnig cymorth 24 awr drwy raglen cymorth gweithwyr cyflogedig i gydweithwyr a'u teulu agos, mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cyngor a chwnsela, gan gynnwys cyngor cyfreithiol. Rydym yn deall yr effaith mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gallu ei chael ar bobl drwy gydol eu bywydau ac ar ein cymunedau lleol hefyd, yn eu tro. Ar ôl cwblhau hyfforddiant sy'n Ystyriol o Drawma ar gyfer ein rolau allweddol, rydym yn mesur effaith y newidiadau rydym wedi'u cyflwyno i'r ffordd rydym yn gwneud pethau.

Rydym yn cyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern ac rydym wedi cyflwyno ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn wirfoddol i gofrestr newydd y Llywodraeth.

Polisi, Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

Mae gennym bolisïau a chanllawiau yn eu lle i fonitro tâl, egwylion, a threfniadau amser gwaith sy'n cael eu hadrodd yn ffurfiol drwy ein strwythurau arweinyddiaeth a llywodraethu. Mae ClwydAlyn yn buddsoddi mewn hyfforddiant Diogelu ar gyfer pob aelod staff, gan sicrhau ymwybyddiaeth o fregusrwydd, risgiau camfanteisio a llwybrau uwchgyfeirio priodol.

Chwythu'r Chwiban

Mae arferion chwythu'r chwiban ClwydAlyn yn cynnig dull o nodi a mynd i'r afael ag achosion posibl o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Mae'r polisi yn annog cydweithwyr, contractwyr, ac aelodau'r cyhoedd i adrodd am bryderon, gan gynnwys pryderon sy'n gysylltiedig â chamfanteisio, cam-drin neu ymddygiad anfoesegol. Rydym yn sicrhau ein bod yn ymchwilio'n drylwyr i bob adroddiad ac yn amddiffyn pobl o dan ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban.

Caffael a Rheoli'r Gadwyn Gyflenwi

Rydym yn gweithio gyda llawer o gyflenwyr i ddarparu nwyddau a'n gwasanaethau ehangach; yn ystod 2024/2025, rydym wedi monitro'r cadwyni cyflenwi hynny lle rydym yn credu bod mwy o risg o Gaethwasiaeth Fodern a lle mae ein gwariant ar ei uchaf.

Yn ogystal â bod yn gyfle i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, rydym wedi rhoi proses contract/cyflenwr effeithiol a chydlynol ar waith i sicrhau bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol contractau rheolaidd yn cael eu cyflawni a bod diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys ymlyniad at y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn eu lle fel eitem agenda safonol i reoli contractau.

Yn ystod 2025/2026, gwnaethom gynnal nifer o weithgareddau caffael lle'r oedd yn ofynnol i'r cyflenwyr a benodwyd ddangos tystiolaeth o'u dealltwriaeth o risgiau Caethwasiaeth Fodern a chadarnau bod polisïau a rheolaethau priodol yn eu lle cyn bod modd dyfarnu a dechrau contractau.

Mae ein dogfennaeth dendro ddiweddaraf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ddarparwyr gyflwyno tystiolaeth a gwybodaeth ychwanegol am eu dull gweithredu ar faterion Cyflogaeth Foesegol a Chaethwasiaeth Fodern, a bydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer rheoli contractau yn cael eu cytuno gyda phob cyflenwr i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern a'i fod yn monitro ei gadwyn gyflenwi i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae hyn yn gymwys i bob tender ni waeth a yw trosiant blynyddol y cyflenwr yn bodloni'r trothwy £36m, sy'n golygu bod yn rhaid gwneud datganiad, neu beidio.

Ar gyfer yr holl weithgarwch craffu a thendro sy'n digwydd o dan y Ddeddf Gaffael 2023, mae'n ofynnol i ddarpar gyflenwyr gwblhau Holiadur Caffael Penodol (PSQ). Yn yr holiadur hwn (PSQ), mae'n rhaid i gyflenwyr roi sicrwydd yn ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern a chyflogaeth foesegol, gan gynnwys:

- Cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gaethwasiaeth Fodern a chyfraith llafur ehangach
- Polisïau a rheolaethau diwydrwydd dyladwy cymesur i reoli'r risg o gamfanteisio ar weithwyr

- Datganiadau ar sail eithriadau, gan gynnwys unrhyw ymchwiliadau neu gamau gorfodaeth yn ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau hyn yn cael eu gwerthuso a bydd unrhyw bryderon sy'n codi yn arwain at ragor o gwestiynau eglurhaol i sicrhau bod cyflenwyr yn bodloni'r meini prawf gwerthuso. Gofynnir i'r cyflenwr llwyddiannus y dyfernir contract iddo ymateb i'r cwestiynau hyn a dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth yn flynyddol fel rhan o'r broses rheoli contractau barhaus.

Os caiff cyflenwr ei gaffael drwy gontract fframwaith, rydym wedi casglu gwybodaeth i gadarnhau fod ganddo bolisïau a phrosesau digonol ar waith i reoli'r risg cysylltiedig o Gaethwasiaeth Fodern drwy ofyn cwestiynau PSQ a gwerthuso ymatebion.

Yn achos unrhyw gyflenwyr newydd, bydd yn rhaid iddynt gwblhau gwiradau gorfodol cyn y gellir eu hychwanegu at ein rhestr o gyflenwyr cymeradwy ac ar ein system gyllid. Bydd angen i staff sy'n gofyn am osod cyflenwyr newydd ar y system hefyd gwblhau ffurflen sy'n dangos bod y cyflenwr wedi darparu tystiolaeth o bolisi neu broses yn ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern. Lle bo'n gymesur ac yn briodol, byddwn yn gofyn i'r cyflenwr ddarparu datganiad caethwasiaeth fodern/ neu esbonio rhesymau dros beidio â chael datganiad fel rhan o'r gwiriadau.

Edrych i'r dyfodol

Byddwn yn parhau i gynnal gwiriadau ymlaen llaw yn ystod y broses dendro ac fel rhan o'r drefn cyflenwyr newydd. Bydd unrhyw gyflenwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn cael eu heithrio'n awtomatig o'r prosesau caffael neu gyflenwi.

Darparwyd hyfforddiant rheoli contractau ac mae'n cael ei gyflwyno ar draws timau ehangach, gan gefnogi gweithredu prosesau rheoli contractau mewn ffordd gyson. Byddwn yn parhau i fonitro ein dull o gymhwyso prosesau rheoli contractau.

Mae Caethwasiaeth Fodern yn elfen arferol o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n cael eu hadrodd mewn contractau, yn enwedig yn achos cyflenwyr allweddol, ac mae hyn yn cael ei fonitro drwy weithgarwch rheoli contractau parhaus, gan gynnwys hapwiriadau cymesur. Byddwn yn cyflwyno trefniadau adrodd ffurfiol ar reoli contractau a chydymffurfiaeth drwy ein strwythurau llywodraethu.

Byddwn yn parhau i fonitro tâl, egwylion ac amser gwaith ac yn adrodd yn ffurfiol drwy ein strwythurau llywodraethu.

Clare Budden
Prif Weithredwr y Grŵp

ClwydAlyn.co.uk

Cymdeithas Elusennol Gofrestredig / Charitable Registered Society (Rhif/Number 22360R) Landlord Cymdeithasol Cofrestredig / Registered Social Landlord (Rhif/Number L051) Wedi ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol / Authorised and regulated by the Financial Conduct Authority

Byddwn yn trin gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal / We will treat correspondence received in English and Welsh on an equal basis